**COFNODION Y CYFARFOD**

**Dyddiad:** 25 Mehefin 2002
**Amser:** 9am
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:**

John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Carwyn Jones, Trefnydd y Cynulliad
Jonathan Morgan, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol
Rhodri Glyn Thomas, Plaid Cymru

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Uned Busnes y Cynulliad
Alun Jenkins, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)
Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Siambr / YP y Dirprwy Lywydd

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Jocelyn Davies am ei habsenoldeb. Croesawodd y Dirprwy Lywydd Rhodri Glyn Thomas a fydd yn ei chynrychioli tan fis Hydref o dan Reol Sefydlog 13.3.

**2. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol**

**(i) BC192-02 (Terfynol) Dydd Mawrth 11 Mehefin 2002**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Gan na chafwyd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu, yn barod i'w cyhoeddi.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**(ii) BC212-02 (Drafft) Dydd Mawrth 18 Mehefin 2002**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan na chafwyd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu, yn barod i'w cyhoeddi.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**3. Materion sy'n Codi (BC212-02 dydd Mawrth 18 Mehefin 2002)**

3.1 **Paragraff 4.3** Dosbarthodd y Trefnydd ganllawiau ar arfarniadau rheoliadol i aelodau'r Pwyllgor.

3.2 **Paragraff 4.6** Dywedodd y Trefnydd ei fod wedi ymchwilio i'r mater ynghylch Gweinidogion yn hysbysu Swyddfa'r Llywydd o ddeddfwriaethau er mwyn eu cyhoeddi o dan Reol Sefydlog 30.1 Teimlai fod Gweinidogion yn glynu wrth y Rheolau Sefydlog a gofynnodd i'r Dirprwy Lywydd amlinellu'i bryderon mewn llythyr, gan roi enghreifftiau lle bo modd. Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i David Lambert baratoi drafft.
**Camau i'w cymryd:** David Lambert i ysgrifennu at y Trefnydd ynghylch cyhoeddi Is-ddeddfwriaeth.

3.3 **Paragraff 11.1** Dywedodd y Trefnydd fod Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu at y Llywydd i egluro portffolios diwygiedig Gweinidogion yn sgil ad-drefnu'r Cabinet. Dywedodd y Dirprwy Lywydd nad oedd wedi gweld y llythyr eto. Gofynnodd i'r Trefnydd roi manylion i'r Pwyllgor ynghylch swyddogaethau'r Gweinidogion o dan adran 56(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru a'u cyfrifoldebau eraill. Roedd angen eglurhad ar y sefyllfa gan fod portffolios y Gweinidogion yn effeithio ar gylch gwaith y pwyllgorau pwnc a Chwestiynau'r Cynulliad.

## 4. Is-ddeddfwriaeth
### (a) Gorchmynion i'w hystyried

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC214-02) *Gweithdrefn a Argymhellir: Safonol*

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2002 (BC215-02) *Gweithdrefn a Argymhellir: Safonol*

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Atodol Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 2002 (BC216-02) *Gweithdrefn a Argymhellir: Safonol*

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002 (BC217-02) *Gweithdrefn a Argymhellir: Safonol*

Rheoliadau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (Diwygio) 2002 (BC218-02) *Rheol Sefydlog 23, Adran 3*

Gorchymyn Diwygio Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2002 (BC219-02) *Rheol Sefydlog 23, Adran 3*

*The Children Leaving Care (Amendment) (Wales) Regulations 2002 (BC220-02) Gweithdrefn a Argymhellir: Carlam*

Gorchymyn Crancod Heglog Bach (Cymru) 2002 (BC221-02) *Gweithdrefn a Argymhellir: Carlam*

Rheoliadau Pysgod Cregyn (Pennu Cramenogion) (Cymru) 2002 (BC222-02) *Gweithdrefn a Argymhellir: Carlam*

4.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papurau BC214-02 i BC222-02 a oedd yn darparu cyngor ar sut i drin y gorchmynion hyn. Nododd y Dirprwy Lywydd

bod y rhan fwyaf wedi'u gosod yn hwyr ar y Fewnrwyd, er bod y cyfnod yn cynnwys dau benwythnos.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n rhaid cael cymeradwyaeth y Trefnydd i gais aelod o'r Pwyllgor am ddadl ar orchymyn a oedd wedi'i argymell ar gyfer y weithdrefn garlam oni nodir fel arall. Byddai hyn yn osgoi unrhyw ansicrwydd a hysbysiad dianghenraid gan 3 Aelod Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22-25(ii) i ystyried gorchymyn drafft ar wahân.

4.3 Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod rhai o'r Memoranda Esboniadol yn cyfeirio at gostau ychwanegol i awdurdodau lleol yn sgil y gorchmynion. Er hynny, nid oedd unrhyw gyfeiriad at gostau ychwanegol posibl i fusnesau na'r cyhoedd. Tynnodd sylw'n arbennig at BC214-02. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n ymchwilio i'r sefyllfa ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.
**Camau i'w cymryd:** Y Trefnydd i adrodd yn ôl.

**Wedi hynny, penderfynodd y Llywydd nad oedd yn rhaid i'r Gorchmynion hyn fynd gerbron pwyllgor pwnc.**

**(b) Gorchmynion a wnaed o dan y Weithdrefn Weithredol; papurau i'w nodi.**

**(c) Llythyrau oddi wrth Bwyllgorau; papurau i'w nodi.**

**5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau**

**6. Y Pwyllgorau**

BC223-02

6.1 Cyflwynodd Marie Knox y papur ar effaith symud y Cyfarfod Llawn o fore Iau i brynhawn Mercher ar amserlenni pwyllgorau tymor yr hydref. Mae ethol Mick Bates i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd hefyd wedi achosi problem o ran yr amserlen. Dywedodd Kirsty Williams fod hyn yn codi pwynt o egwyddor. Roedd Mick Bates wedi'i ethol i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ond ni allai gymryd ei sedd oherwydd ei fod hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Er bod modd i'w phlaid hi anfon eilydd, roedd hi'n anodd i bleidiau sydd â 6 Aelod yn unig. Cytunodd y Pwyllgor ar gynnig y Dirprwy Lywydd i drafod y mater hwn yng nghyfarfod nesaf Panel y Cadeiryddion ar 26 Mehefin.

**7. Busnes Arfaethedig**

(i) Busnes yr Wythnos Hon

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur BC224-02 a oedd yn rhoi manylion am fusnes y Cynulliad y cytunwyd arno ar gyfer yr wythnos.

7.2 Dywedodd y Trefnydd fod datganiad Jane Hutt ar y Strategaeth Troseddwyr Ifanc, a oedd wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mawrth 25 Mehefin, wedi symud i ddydd Iau 27 Mehefin. Byddai'r cynnig i gymeradwyo

Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid, a oedd wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mawrth 15 Mehefin, yn cael ei symud i ddydd Mawrth 2 Gorffennaf.

**(ii) Datganiad Busnes Drafft**

7.4 Nododd y Pwyllgor ddatganiad arfaethedig y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad ar drefnu busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau sy'n dechrau dydd Mawrth 2 Gorffennaf, dydd Mawrth 9 Gorffennaf a dydd Mawrth 16 Gorffennaf.

7.5 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad nad oedd unrhyw newid i'r busnes a amlinellwyd yn y Datganiad Busnes Drafft. Rhoddodd wybod i'r Pwyllgor y byddai cynnig i ethol Mike German fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn cael ei gyflwyno yn hwyrach y diwrnod hwnnw i'w drafod ddydd Mawrth 2 Gorffennaf.

**8. Materion a gyfeiriwyd gan y cyfarfod llawn**

8.1 Cyfeiriodd Rhodri Glyn Thomas at ddigwyddiad yn y Cyfarfod Llawn ddydd Iau 20 Mehefin lle'r oedd yn credu bod Brian Gibbons wedi herio awdurdod y Cadeirydd. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai'n codi'r mater gyda'r Llywydd.

**9. Adolygu Rheolau Sefydlog**

BC210-02

9.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y papur ar yr ail gyfres o newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a oedd yn deillio o'r Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor drachefn na ddylai'r cynnig i newid Rheol Sefydlog 6.3 i ddiogelu'r ddadl fer effeithio ar yr amser sydd ar gael ar gyfer Dadleuon y Pleidiau Lleiafrifol. Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod nifer o bosibiliadau:

- Diogelu amser Dadl y Pleidiau Lleiafrifol yn ogystal â'r Ddadl Fer.
- Rhoi hawl i'r Cadeirydd estyn busnes o hyd at 10 munud fel bod modd dod â'r eitem fusnes olaf ond un i ben.
- Trefnu bod Dadl y Pleidiau Lleiafrifol yn cael eu cynnal ar ddechrau prif fusnes y Cyfarfod Llawn.
- Trefnu Dadleuon y Pleidiau Lleiafrifol ar gyfer dydd Mawrth a Dadleuon Byr ar gyfer dydd Mercher.

Cytunodd y Pwyllgor i ymgynghori â'u grwpiau ac i drafod y mater eto yn y cyfarfod nesaf. Nodwyd bod yn rhaid penderfynu yn y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi'r newidiadau i'r Rheolau Sefydlog ar waith ym mis Hydref.

BC211-02

9.2 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y papur ar gynigion ynghylch ymdrin â deisebau sy'n cael eu hanfon i'r Cynulliad a chytunodd ddychwelyd at y pwnc yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Busnes.

## 10. Dyfarniadau'r Llywydd

## 11. Unrhyw fater arall

BC226-02

11.1 Nododd y Pwyllgor y papur ar neilltuo Dadleuon y Pleidiau Lleiafrifol.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**